Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu**

# Effaith yr achosion COVID-19 ar y diwydiannau creadigol

Gorffennaf 2020

Mae'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu yn archwilio effaith yr achosion o COVID-19 ar feysydd sydd o fewn ei gylch gwaith, gan gynnwys y diwydiannau creadigol. Cafodd y Pwyllgor gyfraniadau ysgrifenedig a chlywodd dystiolaeth lafar gan randdeiliaid mewn cyfarfod ar 25 Mehefin 2020, a chan y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth ar 12 Mai.

Ar 5 Gorffennaf, cyhoeddodd Llywodraeth y DU becyn cymorth o £1.57 biliwn ar gyfer diwydiannau'r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth. Mae hyn yn cynnwys pecyn cymorth ar gyfer sefydliadau diwylliannol yn Lloegr, a chyllid canlynol i'r llywodraethau datganoledig, sy'n rhydd i ddefnyddio'r arian hwn fel y dymunant.[1] Mae'r cyllid yn cynnwys £59 miliwn i Gymru.

## 1. Cymorth i'r gweithlu

**1.** Mae natur y gweithlu yn y diwydiannau creadigol yn golygu ei bod yn anodd iddynt fanteisio ar gynlluniau cymorth Llywodraeth y DU ac maent mewn mwy o berygl o ddiweithdra. Gallai hyn olygu na fydd gweithwyr talentog, y bydd eu hangen unwaith y bydd y sector yn ailgychwyn, ar gael mwyach oherwydd byddant wedi dod o hyd i gyflogaeth mewn gwlad neu sector arall.

**2.** Clywodd y Pwyllgor fod y cymorth ariannol a gynigir gan Lywodraeth y DU drwy'r Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig a'r Cynllun Cadw Swyddi i'w groesawu, ond nad oedd yn addas ar gyfer gweithwyr llawrydd. Dywedodd Pauline Burt, Ffilm Cymru, fod y sector ffilm a theledu yn gyffredinol yn defnyddio dros 90 y cant o weithwyr llawrydd a busnesau meicro.[2] Mae cael gafael ar

[1] https://www.gov.uk/government/news/157-billion-investment-to-protect-britains-world-class-cultural-arts-and-heritage-institutions

[2] Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, para 62

gymorth yn peri problemau oherwydd bod pobl yn anghymwys os nad ydyn nhw wedi bod mewn busnes ers tair blynedd,[3] neu, fel y clywodd y Pwyllgor, fel busnesau meicro ac unig fasnachwyr, maent yn rhy fach ac wedi disgyn rhwng y craciau.[4]

**3.** Yn ôl arolwg yr Elusen Ffilm a Theledu, nid oedd 93 y cant o weithwyr llawrydd y diwydiant yn gweithio oherwydd yr argyfwng ac nid oedd 74 y cant yn disgwyl cael unrhyw gymorth gan eu bod yn anghymwys ar gyfer y Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig a'r Cynllun Cadw Swyddi.[5]

**4.** Esboniodd Henry Widdicombe, Little Wander Ltd, am gyfyngiadau'r cynlluniau:

> 'As a director of a small business, my wife and I are currently ineligible for the furlough scheme. Not eligible for Arts Council of Wales grant schemes and not covered by Creative Wales. The immediate halting of all work is currently decimating the supply chain of the events industry. There may not be enough equipment, suppliers, and skill base to start the events industry effectively.'[6]

**5.** Gwnaeth Sara Pepper, Prifysgol Caerdydd, bwynt tebyg am anhawster ailgychwyn cynyrchiadau yn y dyfodol heb roi cymorth i weithwyr llawrydd aros yn y diwydiant. Meddai: 'We can't start up business in the same way without this group of people. They're absolutely vital.'[7] Aeth ymlaen i ddweud, ar sail adroddiad gan y Ffederasiwn Diwydiannau Creadigol, y gallai hyd at 16,000 o swyddi gael eu colli yng Nghymru.[8] Amcangyfrifodd fod hanner yr 80,000 o weithwyr creadigol yng Nghymru yn weithwyr llawrydd a'u bod wedi disgyn drwy lawer o fylchau, a bod gwir angen i ni feddwl am ffordd o'u cefnogi wrth symud ymlaen.[9]

**6.** Tynnodd Pauline Burt, Ffilm Cymru, sylw at yr sgil-effaith ar y sector. Dywedodd:

> 'about two thirds of workers, certainly across film and television, are currently not eligible for the existing schemes, whether it's the furlough scheme or the freelance support scheme.... It's an extremely concerning picture and does point to a likely contraction of the sector.'[10]

---

[3] Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, para 71
[4] Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, para 62
[5] Tystiolaeth ysgrifenedig Ffilm Cymru
[6] Tystiolaeth ysgrifenedig Little Wander Ltd.
[7] Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, para 59
[8] Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, para 31
[9] Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, para 41
[10] Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, para 39

**7.** Galwodd rhanddeiliaid hefyd am estyniad i'r Cynllun Cadw Swyddi y tu hwnt i fis Hydref. Dywedodd Gareth Williams, TAC:

> 'o ran cwmnïau sydd yn aelodau o TAC, byddem ni'n gweld nifer fawr o'r cwmnïau yna lle mae hanner eu gweithlu, o bosib, ar y cynllun seibiant ar hyn o bryd… ond cyn bo hir efallai fydd ddim yn gallu cymryd mantais o'r cynllun ffyrlo a chefnogaeth arall achos ei bod hi'n rhy hwyr, ac efallai eu bod nhw'n mynd i ffeindio caledi a phrinder gwaith yn y misoedd i ddod hefyd'.[11]

**8.** Dywedodd Mark Davyd, Music Venue Trust, wrth y Pwyllgor fod gan yr Ymddiriedolaeth bryderon dwfn ynglŷn â dod â'r cynllun ffyrlo i ben yn raddol dros y misoedd i ddod, o ystyried mai cyngor y Llywodraeth ganolog a chyngor cyfredol y Llywodraeth yng Nghymru yw na ddylai digwyddiadau cerdd fod yn cael eu cynnal.[12]

**9.** Galwodd rhanddeiliaid am fuddsoddiad uniongyrchol gan y llywodraeth. Rhoddodd Sara Pepper, Prifysgol Caerdydd, enghraifft o ymyrryd gan Lywodraeth yr Almaen:

> '€1 billion was made available for an emergency arts funding scheme, of which €1,000 a month… was made available to freelancers'.[13]

**10.** Dywedodd Pauline Burt, Ffilm Cymru, fod yr Elusen Ffilm a Theledu wedi rhoi 116 dyfarniad o £ 2,500 i unigolion yng Nghymru.[14] Pwysleisiodd fod yna awydd cryf iawn i fynd yn ôl i gynhyrchu yn absenoldeb cynllun digon eang sy'n gweithio i'r diwydiannau creadigol, gan nodi mai dim ond ar ôl i'r cynyrchiadau ddechrau y bydd gweithwyr llawrydd yn cael eu talu.[15]

## Ein barn ni

### Cefnogi'r gweithlu

Yn sgil y cyfyngiadau symud, gwelwyd effaith sydyn a niweidiol ar y diwydiannau creadigol yng Nghymru. Teimlwyd yr effaith nid yn unig gan y rheini a gyflogir yn

[11] Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, para 51
[12] Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, para 57
[13] Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, para 76
[14] Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, para 78
[15] Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, para 79

uniongyrchol ond ar draws y gadwyn gyflenwi gyfan, fel trydanwyr, seiri, artistiaid gwallt a cholur ac eraill sy'n gweithio o brosiect i brosiect.

Clywodd y Pwyllgor fod cyfran uchel o weithlu'r diwydiannau creadigol yn weithwyr llawrydd ac y bydd llawer yn cael eu gorfodi i adael y diwydiant os na eir i'r afael â'u hanghenion ariannol. Rydym mewn perygl o golli gweithwyr medrus a fydd yn hanfodol i ailgychwyn ac ailadeiladu'r diwydiant unwaith y bydd y cyfyngiadau symud yn llacio.

Rydym yn galw ar Lywodraeth y DU i fynd i'r afael â'r bylchau o ran pwy sy'n gymwys i'r Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig i sicrhau bod gweithwyr llawrydd yn y diwydiannau creadigol yn gymwys i gael cymorth. Rydym hefyd yn galw am ymestyn y Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig a'r Cynllun Cadw Swyddi y tu hwnt i fis Hydref 2020 oherwydd bod ailagor y sector yn debygol o fod yn raddol ac na fydd yn dychwelyd i gyflogaeth lawn cyn y dyddiad hwnnw.

Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r cyhoeddiad o gyllid ychwanegol o £59 miliwn. Mae gan Lywodraeth Cymru ddisgresiwn llwyr o ran sut caiff yr arian hwn ei wario. O ystyried maint yr her y mae'r sectorau hyn yn ei hwynebu, rydym yn galw am ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru y caiff yr holl gyllid a gyhoeddwyd ei wario ar y celfyddydau, diwylliant a threftadaeth.

Mae amser yn mynd yn brin i ni sefydlogi a chynnal ein talent a'n seilwaith creadigol. Felly, dylai Llywodraeth Cymru fynd ati ar frys i nodi sut y bydd yn blaenoriaethu'r cyllid ychwanegol i sicrhau nad yw'n sefydliadau celfyddydol, diwylliannol a threftadaeth yn gorfod cau eu drysau am byth neu ddiswyddo aelodau gwerthfawr o staff.

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru fynd ati ar frys i nodi sut y bydd yn blaenoriaethu'r cyllid ychwanegol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd ymrwymo i wario'r £59 miliwn cyfan ar y celfyddydau, diwylliant a threftadaeth.

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Llywodraeth y DU i ymchwilio i ffyrdd o roi cymorth ariannol i weithwyr yn y diwydiannau creadigol sydd, wrth i'r cyfnod clo lacio, yn methu dychwelyd i'r gwaith yn ddiogel o hyd.

# 2. Pwysigrwydd darlledu gwasanaeth cyhoeddus

**11.** Clywodd y Pwyllgor fod y pandemig wedi tynnu sylw at rôl allweddol darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus o ran darparu gwybodaeth gyfredol, sy'n benodol i Gymru, ynghylch y pandemig a rhagofalon y cyfyngiadau symud. Maent hefyd wedi cynhyrchu'r cynnwys addysgol sydd ei angen ar deuluoedd ar gyfer addysg yn y cartref. Fodd bynnag, daw cynnydd yn y ffigurau gwylio ar adeg o bwysau cynyddol yn sgil cwymp mewn incwm a chystadleuaeth gan wasanaethau ffrydio drwy danysgrifiad.

**12.** Dywedodd rhanddeiliaid wrth y Pwyllgor am bwysigrwydd darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. Dywedodd Gareth Williams, TAC:

> 'Mae'r cyfnod yma wedi gwneud inni werthfawrogi, rwy'n credu, pa mor allweddol yw darlledu cyhoeddus o ran gwybodaeth, o ran cadw ni yn ymwybodol o beth sy'n digwydd gyda'r newyddion, gyda materion cyfoes, cyfle i gael atebion, ond hefyd adloniant a rhyddhad, a chyfle am ddihangfa, yn achlysurol, o'r newyddion anodd'.[16]

**13.** Clywodd y Pwyllgor fod darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, yn rhannol oherwydd y pandemig, wedi cynyddu dealltwriaeth y cyhoedd o ddatganoli. Dywedodd Owen Evans, S4C:

> 'If there's been any gain from what's been a fairly ghastly few months for a lot of people, it's that people are starting to understand the role of the National Assembly and the Welsh Government. This is a chance for us not to throw that away. …I think, as a nation-building exercise, a focus on the strength of the PSBs actually is… not one you take your eyes off'.[17]

**14.** Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus hefyd yn wynebu anawsterau yn sgil y newid mewn arferion gwylio, o sianeli daearol i wylio gwasanaethau tanysgrifiad ar alw fel Amazon a Netflix. Roedd rhanddeiliaid yn cytuno â Phil Henfrey, ITV Cymru Wales, a ddywedodd:

> 'it has really brought to the fore the pressures that we are facing… it's amplified the competition against us, it has amplified the threats to our revenue streams, and the pace of that change has also accelerated. So, the need for action is now all the more urgent.'[18]

[16] Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, para 17
[17] Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, para 312
[18] Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, para 206

**15.** Dywedodd Rhodri Talfan Davies, BBC Cymru Wales, hefyd fod darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn wynebu pwysau sylweddol o ran cyllido.[19] Disgwylir i'r effaith gyffredinol ar BBC Cymru Wales fod yn ostyngiad o £4.5 miliwn yn ei chyllideb.[20] Dywedodd ITV Cymru Wales fod ei refeniw hysbysebu ledled y DU wedi gostwng 41 y cant ym mis Ebrill. Mae ITV PLC hefyd wedi gorfod torri £60 miliwn o gost gorbenion yn 2020 a £30 miliwn o wariant cyfalaf, a rhoi 800 o staff ar y cynllun ffyrlo.[21]

**16.** Galwodd y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus am ymyrraeth gan y llywodraeth i ddiogelu eu rôl, neu fe allai rhywbeth a bwysleisiwyd yn y ddadl sy'n hanfodol i Gymru gael ei golli, yn ôl Phil Henfrey, ITV Cymru Wales. Aeth ymlaen i ddweud:

> 'there's only one ITV that bases several hundred people permanently in Wales, creating and telling stories in a Welsh context. And put simply and put starkly: without intervention, all of that is at risk.'[22]

**17.** Tynnodd y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus sylw hefyd at eu rôl fel cyflogwyr a chomisiynwyr. Dywedodd Phil Henfrey, ITV Cymru Cymru fod cysylltiad uniongyrchol rhwng y sefyllfa sy'n wynebu gweithwyr llawrydd a'r lefelau cyllido cyffredinol sy'n wynebu'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus.[23] Dywedodd Rhodri Talfan Davies, BBC Cymru Wales:

> 'it's about £280 million a year that is coming in via the public service broadcasters into the sector in Wales. If you see advertising revenue cut away at the ability of ITV and Channel 4 in particular to commission, then that has a direct impact on the freelance market'.[24]

## Ein barn ni

### Gwerth darlledu gwasanaeth cyhoeddus a'r heriau y mae'n eu hwynebu

Mae'r argyfwng hwn wedi dangos gwerth darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru. Maent wedi darparu'r adnoddau sydd eu hangen ar gyfer addysg yn y cartref ac wedi sicrhau bod gwylwyr Cymru yn parhau i dderbyn gwybodaeth sy'n benodol i Gymru am y feirws.

---

[19] Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, para 206
[20] Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, para 197
[21] Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, para 212
[22] Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, para 309
[23] Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, para 232
[24] Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, para 232

Mae darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn wynebu heriau digynsail yn sgil y cynnydd mewn gwylio gwasanaethau ar alw drwy danysgrifiad a gostyngiad mewn incwm. Pwysleisiodd darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus fod y newid hwn wedi cyflymu yn ystod y pandemig ac maent wedi galw am ymyrraeth 'frys' gan y llywodraeth.[25]

Ar hyn o bryd mae Ofcom yn ymgynghori ar ddyfodol darlledu'r gwasanaeth cyhoeddus drwy ei sgwrs 'Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr'. Mae'r Pwyllgor yn bwriadu ymateb i'r ymgynghoriad hwn i ddadlau o blaid cefnogaeth gan y llywodraeth i gynnal a chryfhau rôl hanfodol darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru, o ystyried eu rôl hanfodol yn ecoleg y cyfryngau.

Mae'n hanfodol bod cynulleidfaoedd Cymru yn parhau i weld eu bywydau'n cael eu hadlewyrchu ar y sgrin, a'u bod yn gallu cael mynediad at wybodaeth gywir am ein democratiaeth ddatganoledig a bywyd yng Nghymru yn ehangach, a hynny yn Saesneg ac yn Gymraeg. Mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus hefyd yn rhan hanfodol o dwf ein diwydiannau sgrin – gan ddarparu cyflogaeth a sgiliau sydd o fudd i'r sector cyfan.

Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymateb i ymgynghoriad Ofcom ynglŷn â dyfodol darlledu gwasanaeth cyhoeddus drwy danlinellu pwysigrwydd cynnal llais unigryw o Gymru. Ni fu erioed mwy o angen am ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus, ac ni fu ychwaith gymaint o dan fygythiad.

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru ymateb i ymgynghoriad Ofcom ynglŷn â dyfodol darlledu gwasanaeth cyhoeddus i eirioli dros gyllid digonol i sicrhau y gall darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus barhau i ddarparu rhaglenni sy'n tarddu o Gymru a chynnwys unigryw o Gymru.

# 3. Ailgychwyn cynyrchiadau ffilm a theledu

## Yswiriant cynhyrchu

**18.** Clywodd y Pwyllgor mai'r rhwystr mwyaf o ran ailgychwyn cynyrchiadau ffilm a theledu ar raddfa yw argaeledd yswiriant cynhyrchu llawn ar gyfer cynhyrchwyr domestig.[26]

[25] Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, para 223
[26] Tystiolaeth ysgrifenedig y BBC

**19.** Ysgrifennodd S4C y bydd y gallu i sicrhau yswiriant yn hanfodol wrth ailgychwyn cynyrchiadau.[27] Dywedodd BBC Cymru Wales hefyd mai diffyg yswiriant Covid-19 bellach yw'r prif rwystr o ran ailgychwyn cynhyrchu ffisegol domestig.[28]

**20.** Gwnaeth Pauline Burt, Ffilm Cymru, a Gareth Williams, TAC, sylwadau tebyg ynghylch effaith y sefyllfa hon:

> 'With an inability to secure full insurance cover, we will see market failures in all genres of UK audio-visual. A two tier system will develop whereby inward investors are able to carry more risk around Covid-19 and proceed with productions, whilst domestic production cannot. In a competitive global market this could result in an eventual loss of all of the competitive advantages we have gained over the last decade'.[29]

**21.** O ran sut i ddatrys y sefyllfa, awgrymodd rhanddeiliaid y gallai Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru roi sicrwydd i ddarparwyr yswiriant. Dywedodd Gareth Williams, TAC:

> 'Dwi'n gwybod bod yna drafodaethau ar y gweill, o ran cael rhyw ffordd o 'underwrite-o' y lefelau o yswiriant, ac mae yna drafodaethau rhwng darlledwyr. Dwi'n gwybod bod Cymru Greadigol yn rhan o'r trafodaethau hynny, a hefyd mae TAC, er enghraifft, wedi bod yn lobïo gyda Swyddfa Cymru pa mor allweddol yw hi i daclo a chael ateb i'r her o ran yswirio'.[30]

**22.** Dywedodd Pauline Burt, Ffilm Cymru:

> 'So, I think it is at Government level, and most likely Treasury level… So, looking at some sort of underwriting facility or finance guarantee that they can then provide to pass on to insurance companies that allows them to take on that additional risk and not have those exclusions is going to be necessary'.[31]

## Mae rhai genres yn wynebu heriau mwy.

**23.** Clywodd y Pwyllgor fod natur y gwaith y gellir ei wneud ym maes ffilm a theledu yn dibynnu ar genre. Mae'r angen i gadw pellter cymdeithasol yn cael llai o effaith ar newyddion a materion cyfoes nag ar ddrama. Er enghraifft, dywedodd Phil Henfrey, ITV Cymru Wales: 'news and current affairs… stayed on the air

[27] Tystiolaeth ysgrifenedig S4C
[28] Tystiolaeth ysgrifenedig BBC Cymru Wales
[29] Tystiolaeth ysgrifenedig BBC Cymru Wales
[30] Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, para 112
[31] Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, para 112

throughout, whereas other genres haven't made anything since we went into this crisis and are really struggling to see how they can'.[32]

**24.** Awgrymodd Phil Henfrey, ITV Cymru Cymru, y gellid dysgu gan wledydd sydd eisoes wedi ailgychwyn cynyrchiadau. Dywedodd: 'In other parts of the world, they are finding solutions… and combining it with testing and tracing for the sector as well. Italy is a really good example of that.'[33] Esboniodd Rhodri Talfan Davies fod y model Eidalaidd yn defnyddio swigod cynhyrchu, lle mae trefn o gynnal profion ar leoliad, a grŵp o bobl yn y cynhyrchiad sy'n gallu gweithio'n agosach na'r rheol oherwydd y drefn honno o brofion.[34] Roedd Owen Evans, S4C, hefyd o blaid 'carfannau criw'.[35]

**25.** Pwysleisiodd y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus fod angen dod o hyd i ateb ar frys. Dywedodd Phil Henfrey, ITV Cymru Wales:

> 'Ours is a highly mobile industry. There's a risk…Wales becomes disadvantaged by this. As productions and companies start to restart production, really what we want to see is Wales open for business. If it's not, then it's quite simple for these organisations and businesses to go elsewhere'.[36]

**26.** Fe wnaeth Gareth Williams, TAC, hefyd gefnogi'r angen i ailgychwyn cynyrchiadau cyn gynted â phosibl. Mewn ymateb i gwestiwn am gymorth i weithwyr llawrydd, dadleuodd y bydd ailgychwyn cynyrchiadau yn datrys eu diffyg incwm. Dywedodd fod cynyrchiadau wedi ailgychwyn yn Lloegr ac UDA 'a dŷn ni ddim eisiau'r gweithwyr llawrydd yng Nghymru, wrth reswm, i gael eu gadael tu ôl ac efallai i golli cyfleoedd, ond yn llawn ymwybodol bod yn rhaid gwneud hynny o fewn y cyfyngiadau perthnasol a chywir'.[37]

**27.** Galwodd y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus am arweiniad cyn gynted â phosibl. Dywedodd Phil Henfrey, ITV Cymru Wales:

> 'forward guidance and knowledge about when things can happen will really help the sector prepare for that time so that they can get back up and running, re-employ the freelancers, and make the programmes that, frankly, we all want to be making'.[38]

---

[32] Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, para 272
[33] Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, para 187
[34] Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, para 280
[35] Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, para 283
[36] Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, para 188
[37] Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, para 81
[38] Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, para 229

**28.** Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru 'Y diwydiannau creadigol: canllawiau ar gyfer dychwelyd yn raddol'[39] ar 19 Mehefin 2020. O ran gweithgareddau ar y sgrin, mae'n dweud:

> Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn cydweithio'n agos â'r sector sgrin i ddeall sut y gall mathau gwahanol o gynyrchiadau gydymffurfio â'r ddyletswydd yng Nghymru i gadw pellter corfforol, gan gydweithio hefyd ar ffyrdd diogel o ddychwelyd i'r gwaith. Mae gwaith ar droed ar draws y sector i ddatblygu canllawiau a fydd yn helpu i sicrhau y bydd modd ailgydio'n ddiogel mewn gweithgarwch cynhyrchu. Bydd y canllawiau hyn yn cynnig cymorth i ailgyflwyno gweithgarwch cynhyrchu ym maes teledu a ffilm yng Nghymru y bydd modd ei wneud yn unol â'r cyfyngiadau presennol, ac a fydd yn cynnwys gweithgarwch yn y gadwyn gyflenwi, megis ôl-gynhyrchu ac effeithiau gweledol.
>
> Mae ystyriaeth yn cael ei rhoi hefyd i yswiriant ac i unrhyw gamau y dylid eu cymryd i fynd i'r afael â'r rhwystr sylweddol hwn i gynyrchiadau ffilm a theledu.

## Ein barn ni

### Yswiriant cynhyrchu

Mae'n ddealladwy bod yswirwyr yn wyliadwrus ynghylch darparu yswiriant llawn ar gyfer cynyrchiadau pan fydd risg uwch i'r cynyrchiadau hynny gael eu rhoi ar ffyrlo neu eu canslo. Mae hyn yn golygu bod cynyrchiadau ffilm a theledu wedi arafu. Mae hyn wedi dangos yn glir yr anghydraddoldebau presennol rhwng cwmnïau â dylanwad ariannol cynhyrchwyr rhyngwladol, fel Netflix ac Amazon, sy'n gallu fforddio ysgwyddo'r risg, a chynhyrchwyr domestig sy'n methu gwneud hynny ar hyn o bryd.

Dylai Cymru Greadigol gynnal trafodaethau gyda chynrychiolwyr y diwydiant yswiriant, darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a chwmnïau cynhyrchu annibynnol i gynyddu'r yswiriant cynhyrchu llawn sydd ar gael.

Er mwyn torri'r anghytundeb, dylai Llywodraeth Cymru gynnal trafodaethau gyda'r Trysorlys i hwyluso gwarantau ar gyfer darparwyr yswiriant.

Yr hyn sy'n amlwg yw y gallai'r enillion o adeiladu diwydiant ffilm a theledu Cymru, a'r buddsoddiad yn y sector gan Lywodraeth Cymru dros y degawd diwethaf, gael eu colli o ganlyniad i arafu cynyrchiadau. Dylid ystyried pob opsiwn i ailddechrau cynyrchiadau a chadw mantais gystadleuol Cymru.

[39] Y diwydiannau creadigol: canllawiau ar gyfer dychwelyd yn raddol

Mae darparu gwarantau ariannol ar gyfer y sector nawr, yn ogystal â sicrhau ein lle yn y diwydiant, hefyd yn sicrhau nad yw'r buddsoddiad hyd yn hyn yn cael ei wastraffu.

Ailddechrau cynyrchiadau yn ddiogel

Clywodd y Pwyllgor fod y rheolau cadw pellter cymdeithasol a'r cyfyngiadau teithio a osodwyd yn ystod cyfnod y cyfyngiadau symud wedi effeithio ar gynhyrchu rhai genres yn fwy nag eraill. Dywedodd darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wrthym fod ffilmio drama a darllediadau allanol bellach yn llawer mwy drud oherwydd eu bod fel arfer yn cyflogi mwy o bobl.

Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud bod 'gwaith ar droed ar draws y sector i ddatblygu canllawiau a fydd yn helpu i sicrhau y bydd modd ailgydio'n ddiogel mewn gweithgarwch cynhyrchu'.[40] Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i osod dyddiad ar gyfer cyhoeddi'r canllawiau hyn. Rydym hefyd yn gofyn a fydd yn ystyried gwersi o enghreifftiau rhyngwladol, gan gynnwys defnyddio 'swigod cynhyrchu' ar gyfer gweithwyr. Dylid cyhoeddi'r canllawiau hyn ar frys. Disgwylir i gynllun ffyrlo Llywodraeth y DU ddod i ben yn fuan ac mae angen digon o amser i gwmnïau allu paratoi i weithredu mesurau diogelwch ar gyfer dychwelyd i'r gwaith.

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod ei chanllawiau ynghylch y camau sydd angen eu cymryd i ailgychwyn gweithgaredd ffilmio a chynhyrchu yn ofalus yn cael eu cyhoeddi ar frys.

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am unrhyw drafodaethau sy'n cael eu harwain gan Cymru Greadigol am yr yswiriant cynhyrchu sydd ar gael.

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru gychwyn trafodaethau gyda'r Trysorlys a'r diwydiant yswiriant i geisio gwarantau a fydd yn rhoi'r hyder sydd ei angen ar ddarparwyr yswiriant i sicrhau bod yswiriant cynhyrchu ar gael.

# 4. Ailagor lleoliadau

**29.** Clywodd y Pwyllgor am yr heriau y mae lleoliadau yn eu hwynebu o ganlyniad i'r cyfyngiadau symud. Er enghraifft, dywedodd Henry Widdicombe,

[40] Y diwydiannau creadigol: canllawiau ar gyfer dychwelyd yn raddol

Little Wander Ltd, mai'r effaith uniongyrchol oedd atal yr holl waith, sydd ar hyn o bryd yn dinistrio cadwyn gyflenwi'r diwydiant digwyddiadau.[41]

**30.** Clywodd y Pwyllgor fod hyder defnyddwyr yn hanfodol i ailagor lleoliadau. Dywedodd Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru:

> 'Even when social distancing is relaxed, older audiences may be reluctant to return, further undermining viability… Some segments of the population may be eager for live arts experiences again, but others will be fearful of mass gatherings'.[42]

**31.** Dywedodd Sara Pepper, Prifysgol Caerdydd:

> 'consumer confidence is really important, but also understanding the very essence of what so much of the creative industry is, which is about experiences. We're talking about the experience economy here and making sure that we can put in place measures that make people feel confident and comfortable with that'.[43]

**32.** Dywedodd rhanddeiliaid wrth y Pwyllgor fod yr achos economaidd dros ailagor yn ymylol cyn belled â bod mesurau cadw pellter cymdeithasol mewn grym. Dywedodd Pauline Burt, Ffilm Cymru, y gallai sinemâu elwa o newid i'r rheolau cadw pellter cymdeithasol oherwydd nad ydynt ar hyn o bryd yn gallu cael llif o bobl drwy'r adeilad, ac y byddai'n costio mwy iddynt fod ar agor nac ar gau.[44]

**33.** Dywedodd Mark Davyd, Music Venue Trust:

> 'Essentially, what we've got is a very low margin of profitability in any case, and when we look at the kind of capacities that we can hit with any kind of social distancing, plus adding the measures that we need to have in place in order to control that social distancing, well, actually, what you've got is a show that's even more expensive and requires a lot of extra staffing and requires a lot of additional cleaning and additional control measures, and then you've got returns from it'.[45]

**34.** Hefyd, dywedodd John Rostron, Ffederasiwn Cenedlaethol y Cymdeithasau Cerdd, os nad oes gan gynulleidfaoedd yr hyder i ddychwelyd, yna ni fydd digwyddiadau yn ariannol hyfyw a bydd lleoliadau yn ailagor ar gyfer ymarferion neu ffrydio sioeau yn unig. Yn ogystal â chostau glanhau ychwanegol, nododd nad

---

[41] Tystiolaeth ysgrifenedig Little Wander Ltd.

[42] Tystiolaeth ysgrifenedig Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru

[43] Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, para 140

[44] Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, para 124

[45] Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, para 127

oes gan y mwyafrif o leoliadau systemau awyru digonol, ac efallai y bydd gan leoliadau wasgfeydd na ellir eu hosgoi wrth fynedfeydd/allanfeydd, sy'n eu gwneud yn anaddas.[46]

**35.** Dywedodd Sefydliad yr Ymgynghorwyr Theatr fod rheolau cadw pellter cymdeithasol yn lleihau capasiti theatrau yn sylweddol. Byddai mynnu cadw pellter o ddwy fetr yn golygu capasiti o 21 y cant yn unig a byddai cadw pellter o fetr yn golygu capasiti o 50 y cant sydd ymhell islaw'r lefelau gweithredu ymarferol lle mai 60 y cant yw'r isafswm sy'n ofynnol.[47]

**36.** Hefyd, clywodd y Pwyllgor na all lleoliadau ailagor heb yswiriant, sydd bron yn amhosibl cael gafael arno. Dywedodd Mark Davyd, Music Venue Trust, wrth y Pwyllgor nad yw cwmnïau yswiriant yn fodlon derbyn bod gosod canllawiau iechyd y cyhoedd wedi lleihau'r risg yn ddigonol er mwyn iddynt ddarparu yswiriant ar gyfer y risg o haint COVID-19. Dywedodd:

> 'we are extremely concerned about it. We've seen very, very inconsistent approaches from insurance companies so far… the wildest quote I've seen so far would be 10 times the premium, but we haven't seen any that are effectively saying that the premium will remain the same'.[48]

**37.** Er gwaethaf y risgiau, mae awydd gwirioneddol i ddychwelyd at ddigwyddiadau cynulleidfa fyw. Dywedodd Mark Davyd, Music Venue Trust, wrth y Pwyllgor fod ei arolwg yn dangos bod 86 y cant o'r gynulleidfa yn awyddus iawn i ddychwelyd at y profiad o gerddoriaeth fyw.[49]

## Ein barn ni

### Ailagor lleoliadau

Mae'r Pwyllgor yn falch o glywed bod cefnogaeth Llywodraeth Cymru i leoliadau cerddoriaeth fyw wedi cael sylw llawer mwy effeithiol yng Nghymru[50] na chefnogaeth gan Lywodraeth y DU yn Lloegr. Fodd bynnag, mae bywoliaeth ein lleoliadau llai mewn perygl mawr o hyd. Bydd colli lleoliadau ar lawr gwlad yn cael sgil-effaith, a dywedwyd wrthym y byddai hyn yn adleisio drwy'r diwydiant cyfan am ddegawdau.[51] Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi dangos ei hawydd i

[46] Tystiolaeth ysgrifenedig Ffederasiwn Cenedlaethol y Cymdeithasau Cerdd
[47] Tystiolaeth ysgrifenedig Sefydliad yr Ymgynghorwyr Theatr
[48] Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, para 105
[49] Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, para 147
[50] Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, para 97
[51] Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, para

gefnogi lleoliadau cerddoriaeth ar lawr gwlad drwy sefydlu cronfa gymorth yn cynnig grantiau o £25,000, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth.

Bydd y Pwyllgor yn ceisio diweddariad ar y cymorth a ddarperir drwy'r gronfa hon yn yr hydref.

Mae'r diffyg yswiriant ar gyfer digwyddiadau byw yn golygu na all unrhyw swm o fuddsoddiad mewn seilwaith ddwyn ffrwyth os na all hyrwyddwyr gynnal digwyddiadau hebddo. Ar hyn o bryd nid yw'r farchnad yswiriant yn gwasanaethu hyrwyddwyr a lleoliadau o gwbl, waeth pa ofynion iechyd a diogelwch y mae lleoliadau yn barod i'w gorfodi. Elfen hanfodol o ddigwyddiadau byw mewn lleoliadau dan do yw'r ymdeimlad o fwynhau profiad sy'n cael ei rannu. Os yw yswirwyr yn atal hyn rhag digwydd, yna bydd lleoliadau yn ei chael hi'n anodd gwneud elw ymhell ar ôl i'r cyfyngiadau symud ddod i ben.

Mae ailagor lleoliadau yn dibynnu ar hyder y gynulleidfa, yswiriant digonol a chyrraedd pwynt lle nad yw mesurau iechyd yn gwneud cynnal digwyddiadau yn amhroffidiol. Fodd bynnag, bydd hyn yn gofyn am ymyrraeth gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Rhaid rhoi blaenoriaeth i ddatgloi'r farchnad yswiriant. Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynnwys trafodaethau ynghylch darparu yswiriant ar gyfer perfformiadau byw wrth drafod gyda'r diwydiant yswiriant a Thrysorlys y DU.

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru drafod darparu yswiriant ar gyfer digwyddiadau byw yn ei thrafodaethau â'r Trysorlys a'r diwydiant yswiriant.

# 5. Cynyddu sgiliau ac amrywiaeth

**38.** Clywodd y Pwyllgor fod yr angen i ddargyfeirio cyllid i ariannu anghenion uniongyrchol ar draws y sector wedi golygu, mewn rhai achosion, nad oes adnoddau ar gyfer sgiliau ar gael mwyach. Meddai Pauline Burt, Ffilm Cymru:

> '[there's been an] immediate need for Welsh Government to pivot all of the resources for the rest of this year for skills, certainly as reported from Creative Wales, they've been diverted elsewhere, so there isn't a budget left for skills. So, that's a big concern, I think, that needs to be addressed'.[52]

**39.** Dywedodd Gareth Williams, TAC, fod ei sefydliad yn cynnig hyfforddiant am ddim i weithwyr llaw-rydd yn y cyfnod hwn.[53] Dywedodd Ffilm Cymru hefyd eu

[52] Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, para 87
[53] Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, para 51

bod wedi darparu hyfforddiant ar-lein a oedd â chyrhaeddiad ehangach ond bod hyn yn dod gyda'r amod nad yw darpariaeth o'r fath yn gweddu i bob sefyllfa ac y gall gyfyngu ar fynediad sy'n gymdeithasol gynhwysol.[54]

**40.** Dywedodd Screen Alliance Wales, oherwydd bod yr holl gynhyrchu wedi dod i ben, nad yw'n gallu cynnig cyfleoedd cysgodi gwaith, lleoliadau na hyfforddeiaethau. Roedd amheuaeth a fyddai'r rhain yn parhau pan fydd cynyrchiadau'n ailddechrau oherwydd yr angen i gyfyngu ar faint criwiau. Wrth symud ymlaen, dywedodd: 'it would be of great advantage to have a platform in place for working with educational institutions remotely'.[55]

**41.** Dywedodd Sara Pepper, Prifysgol Caerdydd, y bydd hi'n cymryd rhan mewn cyfrifiad sgiliau dan arweiniad Clwstwr i ystyried yr holl anghenion sgiliau ledled Cymru, oherwydd ei bod yn credu bod gwir angen deall yr anghenion sgiliau cyn ac ar ôl COVID.[56] Bydd canfyddiadau'r cyfrifiad ar gael yn yr hydref.

**42.** Dywedodd rhanddeiliaid wrth y Pwyllgor hefyd am bwysigrwydd creu swyddi ar adeg pan mae'r farchnad swyddi mor galed i bobl ifanc. Awgrymodd Gareth Williams, TAC, 'byddai cynllun o gwmpas cynorthwyo'r newydd-ddyfodiaid i ddod i mewn i'n diwydiant ni ac i hynny yn allweddol fod yn gynrychioliadol o'r gymdeithas ac mor amrywiol â phosib'.[57]

**43.** Dywedodd Pauline Burt, Ffilm Cymru, fod y cyfyngiadau symud wedi tynnu sylw at faterion mynediad i bobl sy'n byw gydag anableddau, a hefyd allgáu economaidd-gymdeithasol, cymunedau BAME, ac ati.[58]

**44.** O ran sut i fynd i'r afael â'r materion hyn, dywedodd Phil Henfrey, ITV Cymru Wales: 'the first thing is to get the data and really understand how our sector is made up, where the skills gaps are and, in terms of diversity too, where we need to put our attention'.[59] Dywedodd y gall fod yn anodd cynllunio hyfforddiant, ac yn benodol y cynllun prentisiaeth, mewn diwydiant sy'n gweithio fesul prosiect. Awgrymodd fod gan Lywodraeth Cymru a Chymru Creadigol rôl arweiniol i'w chwarae:

---

[54] Tystiolaeth ysgrifenedig Ffilm Cymru
[55] Tystiolaeth ysgrifenedig Screen Alliance Wales
[56] Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, para 93
[57] Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, para 69
[58] Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, para 88
[59] Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, para 235

> 'Whether that's potentially attaching conditions to support in terms of diversity, I think that can be an important element to demonstrate leadership within the sector and promote change'.[60]

**45.** Dywedodd Rhodri Talfan Davies, BBC Cymru Wales, fod y sector wedi bod yn siarad am gynyddu amrywiaeth ers cryn amser a bod angen sbarduno'r cynnydd. Dywedodd y dylai amrywiaeth fod yn rhan o'r contract busnes nawr,[61] a bod BBC yn gwneud y canlynol:

> 'ring-fencing about £100 million a year of investment in output, where it will require production companies to demonstrate, both in front of the camera and behind the camera, that at least 20 per cent of the staff base and the talent base is from a diverse background, and that's black, Asian, minority ethnic, disability and socioeconomic diversity'.[62]

**46.** Cytunodd Owen Evans, S4C, fod angen i'r cynnydd fod yn gyflymach, gan ddweud:

> 'Felly, dwi'n cytuno bod yna rôl i lywodraethiant. Bydd S4C yn hysbysebu am bobl newydd i'w bwrdd o fewn, gobeithio, y chwe wythnos nesaf. Fe fyddwn ni'n mynd at gymunedau i geisio cael pobl i geisio—cymunedau gwahanol, ar gyfer y rolau hynny'.[63]

## Ein barn ni

### Cynyddu sgiliau ac amrywiaeth

Dywedodd rhanddeiliaid wrth y Pwyllgor am effaith y cyfyngiadau symud o ran cyfyngu ar y cyfleoedd cyflogaeth i newydd-ddyfodiaid i'r diwydiannau creadigol. Ar yr un pryd, mae mwy o awydd am hyfforddiant oherwydd bod gwaith wedi arafu, ac mae mae sefydliadau fel Ffilm Cymru a TAC yn ceisio diwallu'r galw. Fodd bynnag, nid yw hyfforddiant ar-lein byth yn gallu cymryd lle hyfforddiant yn y swydd.

Mae hefyd angen i gwmnïau cynhyrchu a darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus sy'n darparu cyfleoedd hyfforddi yn y swydd ddenu pobl o gefndiroedd ehangach. Mae angen mynd i'r afael â'r diffyg amrywiaeth o flaen y camera a thu ôl i'r camera ar bob lefel. Gall Llywodraeth Cymru ddangos arweiniad yn hyn o beth, drwy'r cymorth y mae'n ei ddarparu.

[60]60 Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, para 236
[61] Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, para 239
[62] Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, para 239
[63] Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, para 243

Byddwn yn gofyn i Lywodraeth Cymru ddweud pa wybodaeth sydd gan Cymru Greadigol ar amrywiaeth gweithlu'r diwydiannau creadigol a'r ffyrdd y mae'n ceisio cofnodi a chynyddu amrywiaeth drwy ofynion cytundebol gyda'r rheini sy'n derbyn cyllid.

Os yw Cymru am elwa o adnewyddiad ac adferiad o'r argyfwng hwn dan arweiniad diwylliant, mae'n bwysig bod gan bob un ohonom gyfle i elwa'n gyfartal.

**Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth Cymru ei gwneud yn ofynnol i'r rheini sy'n derbyn cyllid Cymru Greadigol ddangos eu hymrwymiad i gynyddu amrywiaeth eu gweithlu.

# 6. Cymru Greadigol

**47.** Clywodd Aelodau'r Pwyllgor ganmoliaeth gan bawb a gyfrannodd at yr ymchwiliad hwn i'r ymyriadau gan Cymru Greadigol, sef is-adran diwydiannau creadigol Llywodraeth Cymru.

**48.** Cymru Creadigol gronfa gwerth £1 miliwn i ymateb i argyfwng y coronafeirws. Mae hyn yn cynnwys Cronfa Gymorth Cerddoriaeth ar Lawr Gwlad i gefnogi pobl – heblaw cerddorion – sy'n gweithio yn y diwydiant cerddoriaeth, gyda chyllid o hyd at £25,000 fesul busnes. Mae Cymru Greadigol hefyd yn cynnig Cronfa Datblygu Teledu Brys ar gyfer prosiectau teledu gan gwmnïau cynhyrchu annibynnol yng Nghymru, a Chronfa Datblygu Digidol Brys ar gyfer gemau, animeiddio, asiantaethau digidol a busnesau digidol creadigol. Lansiwyd y ddwy gronfa ar 20 Ebrill, ac maent bellach ar gau i geisiadau newydd.

**49.** Mewn cyfarfod diweddar gyda chwmníau cynhyrchu, dywedodd Phil Henfrey, ITV Cymru Wales, wrth y Pwyllgor fod pawb yn canmol pa mor gyflym yr ymatebodd Cymru Greadigol i'r argyfwng.[64]

**50.** Dywedodd Owen Evans, S4C, mai un o'r ffyrdd y dangoswyd hyn oedd drwy waith Cymru Greadigol gyda'r Adran Digidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon i sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau fel bod 'gweithwyr sector allweddol' yn y cyfryngau yn gallu parhau i weithio yn ystod y pandemig.[65] Aeth ymlaen i ddweud: 'Felly, mae'r ffaith eu bod nhw wedi gallu ymateb i'r gofynion o'r

[64] Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, para 257
[65] Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, para 256

sector yn chwim a sortio pethau mas actually wedi gwneud pethau yn llawer haws inni weithio mewn adeg pan mae'n ddigon anodd ta beth.'[66]

**51.** Roedd rhanddeiliaid hefyd yn croesawu lefel yr ymgynghori â'r sector, fel profi penderfyniadau buddsoddi gyda nhw. Dywedodd Rhodri Talfan Davies, BBC Cymru Wales, fod sgyrsiau'n cael eu cynnal gyda'r sector bron yn ddyddiol, a disgrifiwyd y lefel hon o ymgynghori fel chwa o awyr iach.[67]

**52.** Fe wnaeth Phil Henfrey, ITV Cymru Wales, ganmol y gwariant gan Cymru Greadigol ar ddatblygu, gan ddweud ei fod wedi'i dargedu'n dda.[68] Fe wnaeth gydnabod bod yr arian wedi cael ei wario lle gallai wneud i werth y buddsoddiad hwnnw gyfrif yn eithaf cyflym', a'i fod er clod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn Cymru Greadigol eu bod wedi gweld hynny.[69] Dywedodd fod Cymru Greadigol wedi gwneud gwaith gwych yn y meysydd y gallant effeithio ar bethau.[70]

**53.** Roedd rhanddeiliaid hefyd yn gwerthfawrogi'r ffaith bod ganddyn nhw lais i'r sector yn Llywodraeth Cymru, pan oedd penderfyniadau'n cael eu wneud ynghylch newidiadau i'r cyfyngiadau symud. Dywedodd Phil Henfrey, ITV Cymru Cymru, fod cael y gynrychiolaeth hon yr un mor bwysig â'r cyllid y mae Cymru Greadigol yn ei ddarparu, gan nodi bod lleisio pryderon a dymuniadau'r sector hefyd yn bwysig dros ben. [71]

## Ein barn ni

### Cymru Greadigol

Mae'r Pwyllgor wedi'i galonogi'n fawr o glywed, er mai dim ond ers blwyddyn y mae Cymru Greadigol wedi bodoli, ei fod wedi ymateb yn rhyfeddol o dda[72] i'r pandemig gyda chynlluniau arloesol.[73] Yn ogystal a'i hymateb cyflym, canmolwyd y berthynas gynhwysol y mae wedi'i sefydlu gyda'r rheini sy'n gweithio yn y sector, gyda rhanddeiliaid yn gwneud sylw ar natur a maint y gwaith ymgynghori a gynhaliwyd. Rydym yn gobeithio y bydd Cymru greadigol yn ymgorffori'r ffordd ymgynghorol hon o weithio yn ei gweithdrefnau wrth

[66] Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, para 255
[67] Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, para 254
[68] Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, para 257
[69] Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, para 265
[70] Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, para 257
[71] Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, para 260
[72] Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, para 185
[73] Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, para 185

ddechrau ar y gwaith o ddosbarthu'r cyllid ychwanegol o £59 miliwn a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU.

Rydym yn falch o weld bod Cymru Greadigol yn amlwg wedi gwrando ar y sector, wedi gweithio gydag ef ac wedi ymateb yn gyflym i'w anghenion. Mae'r pandemig wedi sbarduno'r pwysau sydd ar holl asiantaethau'r sector cyhoeddus ac mae'n galonogol clywed canmoliaeth i asiantaeth sydd yn ei babandod o hyd. Rydym yn gobeithio y bydd gwaith Cymru Greadigol yn adeiladu ar y sylfeini hyn o ymddiriedaeth a chynhwysiant, ac rydym yn edrych ymlaen at ymgysylltu â Cymru Greadigol ar ei nodau strategol tymor hwy ar gyfer adfer y sector.

**Argymhelliad 9.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod yr egwyddor o ymgynghori â rhanddeiliaid yn cael ei hymgorffori yn ffyrdd Cymru Greadigol o weithio.

# 7. Atodiad – Tystiolaeth i'r ymchwiliad

**54.** Mae'r dystiolaeth ysgrifenedig a lywiodd yr adroddiad hwn ar gael ar ein gwefan.

Siaradodd y bobl a ganlyn ag aelodau'r Pwyllgor yn y cyfarfod ar 25 Mehefin 2020.

| | |
|---|---|
| Rhodri Talfan Davies | BBC Cymru Wales |
| Owen Evans, | S4C |
| Phil Henfrey | ITV Cymru Wales |
| Gareth Williams | TAC |
| Sara Pepper | Prifysgol Caerdydd |
| Pauline Burt | Ffilm Cymru |
| Mark Davyd | Music Venue Trust |

Mae trawsgrifiad ar gael ar y wefan.

Clywodd y Pwyllgor hefyd gan y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth, Llywodraeth Cymru ar 12 Mai.